

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

24 Gorffennaf 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Pen-y-bont ar Ogwr

Presennol	Sefydliad
Alun Michael	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Amanda Lewis	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Andrew Gibbs	Coleg Penybont
Helen Matthews	Adran Gwaith a Phensiynau
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Mark Brace	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Baker	Llywodraeth Cymru
Richard Hughes	AWEN
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Judith Jones	Tîm Cymorth Partneriaeth
Gaynor Griffiths	Tîm Cymorth Partneriaeth
Ymddiheuriadau	
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Darren Mephram	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
David Bebb	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Peter Vaughan	Heddlu De Cymru
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Steve Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Eitem Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso a Chyflwyniadau	
1.1	Croesawodd HJ bawb i'r cyfarfod a gofynnodd am gyflwyniadau. Cofnodwyd yr ymddiheuriadau yn unol â'r uchod.	
2	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Mai a Materion sy'n Codi	
2.1	Cywirdeb: 9.1 newid "nododd AM lwyddiant ... wrth edrych ar bobl 18-25 oed" i Nododd AM lwyddiant Tîm Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ac wedyn Bae'r Gorrlewin wrth i nifer y troseddwr tro cyntaf sy'n aildroseddu barhau i ostwng bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd yn aildroseddu yn gwneud hynny yn	

	<p>amlach ac mewn modd mwy difrifol. Mewn cydweithrediad â'r bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, roedd menter newydd yn cael ei chyflwyno ledled de Cymru i edrych ar unrhyw un o dan 18 oed sy'n troseddu eilwaith drwy lens Profiadau Plentyndod Andwyol (ACE) yn ogystal â gweithredu dull "Rheoli Achosion Uwch" ar gyfer y rhai sy'n aildroseddu. Ar wahân, roedd cyllid yr heddlu yn cael ei ddefnyddio i weithredu dull ymyrraeth gynnar ar gyfer troseddwr tro cyntaf yn y grŵp oedran 18-25 ledled de Cymru. Dangosodd adroddiad ansoddol gan gyn Gomisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, fod y fenter yn dangos addewid sylweddol, gydag oblygiadau arwyddocaol i'r holl asiantaethau a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i ymddygiad troseddol a Diogelwch Cymunedol.</p>	
2.2	<p>Materion sy'n codi: 6.5 Mae JT wedi gwirfoddoli hefyd i edrych ar y prosiect Llynfi 20 9.1 Cyflwynodd AM gopi papur o adroddiad Keith Towler. Cam gweithredu: Fersiwn electronig i ddilyn maes o law</p>	AM
2.3	Cymeradwywyd y cofnodion yn dilyn y newidiadau.	
3	Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl	
3.1	<p>Nododd AM y dylid addasu rhywfaint ar yr aelodaeth: Comisiynydd Heddlu a Throseddu (nid ei swyddfa) Prif Gwnstabl (nid Heddlu De Cymru) Ychwanegodd AL fod teitl y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi newid yn ddiweddar: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (nid y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol)</p>	
3.2	<p>Awgrymodd yr aelodau y newidiadau canlynol: 3.1 ychwanegu 'Goruchwylio gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y Fwrdeistref' 7 newid 'Prif Dasgau' i 'Prif Dasgau a Thasgau Statudol' 7.1 newid 'paratoi a chyhoeddi' i 'cynnal ac adolygu' newid 'nhw' i 'y Bwrdd' ychwanegu 'Goruchwylio datblygiad archwiliad llinell sylfaen o droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel sail i Gynllun Diogelwch Cymunedol a fydd yn cyfrannu at gyflawni nodau'r Cynllun Llesiant Lleol.' 10.1 nid oes angen amdano bellach.</p>	
3.3	Cam gweithredu: Ar ôl gwneud y newidiadau, bydd yr aelodau yn cytuno i'r cylch gorchwyl yn electronig.	JJ/PAWB
3.4	O ran aelodaeth, codwyd y cwestiwn ynglŷn â Phrifysgol Abertawe Bro Morgannwg a goblygiadau'r newidiadau arfaethedig ar ôl troed y gwasanaeth iechyd.	
3.5	<p>Amlygodd HJ y 3 prif elfen yn y datganiad Diwygio Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ar 18.07.17 gan Mark Drakeford, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygio cynghorau tref a chymuned • Diwygio trefniadau etholiadol • Diwygio prif gynghorau, gan gynnwys gwaith rhanbarthol gorfodol 	
3.6	Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn ynglŷn â sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr a gwaith cydweithredol hyd yn hyn. Cadarnhaodd AD y byddai gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu cynnal yn ystod yr haf a bydd disgwyl datganiad arall yn yr	

	hydref. Wedyn, pe cefnogir hyn, byddai'r broses ddeddfwriaeth yn dechrau i Ben-y-bont ar Ogwr fod yn rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf.	
3.7	Cam gweithredu: ymgynghoriad i gael ei ddsbarthu pan gaiff ei ryddhau.	AD/JJ
4	Amcanion Llesiant Drafft	
4.1	Gwahoddodd HJ yr aelodau i ystyried yr amcanion drafft a ddsbarthwyd yn flaenorol â'r nod o'u cymeradwyo heddiw i ddechrau'r cyfnod ymgynghori o 14 wythnos a thrafod â'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	
4.2	Esboniodd JJ fod yr amcanion drafft a'r camau drafft sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad wedi'u datblygu trwy ddull gweithdy gan y Grŵp Cynllunio ar sail yr Aseiad o Lesiant a'r gweithdai thematig dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.	
	<p>Darparodd JJ adroddiad ar y cynnydd a wnaed i sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen gan nodi'r angen i enwebu arweinwyr i hyrwyddo gwaith y grwpiau ar lefel y Bwrdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Grŵp Plant a Phobl Ifanc (Profiadau Plentyndod Andwyol/1000 diwrnod cyntaf) AF i gyflwyno papur yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi • Y Grŵp Sgiliau a Phrentisiaeth: SP i gyflwyno papur yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 	
4.3	Yn dilyn trafodaeth, y syniadau cychwynnol oedd bod y 3 amcan drafft cyntaf yn rymus, yn gryf ac yn ddigon eang i ymgorffori amryw o faterion yn y camau a ddatblygir.	
4.4	Roedd pawb yn cytuno y dylai'r rhagarweiniad i bob un o'r amcanion fod yn fwy cadarnhaol. Cynghorodd AD fod angen pwyll cyn cysylltu Profiadau Plentyndod Andwyol ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throreddol bob amser, gan fod y Profiadau hyn yn arwain at iechyd gwael ond nid ydynt yn arwain at droseddu bob tro.	
4.5	<p>Cyflwynodd JJ sylwadau AF yn ei habsenoldeb, a chafwyd trafodaeth ynglŷn â gwaith sy'n ymwneud â Phrofiadau Plentyndod Andwyol. Roedd pawb yn cytuno y dylai'r rhagarweiniad i amcan 1 gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • mwy o bwyslais ar y goblygiadau i iechyd • yr angen i ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth • cyfeirio at waith Profiadau Plentyndod Andwyol trwy'r gwaith treialu ym Maesteg <p>Cam gweithredu: gwneud y newidiadau i'r rhagarweiniad i amcan 1</p>	JJ
4.6	<p>Cytunwyd ar y newidiadau canlynol a awgrymwyd i amcan 2</p> <ul style="list-style-type: none"> • ychwanegu 'hyderus' ar ôl 'diogel' i amcan 2 • symud 'rheoli troseddwyd' o amcan 1 i amcan 2 • o dan blaenoriaeth, newid 'lleihau nifer yr achosion o droseddu' i 'creu cymunedau diogel, hyderus – mynd i'r afael â throreddu, anhrefn a phob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol' <p>Cam gweithredu: gwneud y newidiadau i amcan 2</p>	JJ
4.7	Cafwyd rhagor o drafodaeth ynglŷn â'r drefn orau ar gyfer materion o dan yr amcanion drafft. Roedd yr aelodau o'r farn bod prif ddyhead y tri amcan drafft yn gadarnhaol a bod yn rhaid i ni ymdrin â'r negyddol i gyflawni hyn. Trafodwyd y bylchau ac roedd pawb yn cytuno nad oedd unrhyw ymdeimlad o le na gwneud y mwyaf o Ben-y-bont ar Ogwr na'i hyrwyddo fel ased.	
4.8	Trafodwyd yr angen i gyflwyno pedwerydd amcan posibl yn hytrach na chryfhau'r tri amcan arfaethedig. Awgrymodd AM y dylai'r pedwerydd amcan fod yn 'Pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwneud dewisiadau iach mewn amgylchedd iach', cytunodd pawb ar y teitl drafft.	

4.9	<p>Awgrymwyd cynnwys y meysydd canlynol yn yr amcan drafft ychwanegol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lle ac amgylchedd • lle gwych i fyw a gweithio ynddo • y Gymraeg <p>Cam gweithredu: ME i ddatblygu rhagarweiniad ar gyfer y pedwerydd amcan drafft y cytunwyd arno 'Pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwneud dewisiadau iach mewn amgylchedd iach' a'i anfon at JJ i'w ddsbarthu.</p>	ME
4.10	<p>Gofynnodd JJ i'r aelodau gymeradwyo'r tri amcan drafft i'w cyflwyno i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dilyn y cyfarfod hwn gan nodi y bydd pedwerydd amcan ychwanegol yn cael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo modd. Cytunodd pawb ac ailadroddodd HJ mai dechrau'r drafodaeth yw hyn ac y bydd y cyfnod ymgynghori 14 wythnos gyda'r Comisiynydd yn parhau i ddatblygu'r amcanion a'r camau.</p> <p>Cam gweithredu: Cychwyn y cyfnod ymgynghori 14 wythnos a'r drafodaeth â'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>	JJ
5	Grant Cymorth Llywodraeth Cymru	
5.1	<p>Rhoddodd YS yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth amlygu'r anawsterau recriwtio ar gyfer y swydd wag 1.5 o ar gyfer Cydgysylltydd Cynllunio wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gweithio ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ar hyn o bryd, mae tri thîm cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi aelod o staff mewnol dros dro.</p>	
5.2	<p>Gwahoddodd YS yr aelodau i enwebu aelod o staff posibl i ymgymryd â'r swydd llawn amser. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r tri swyddog rhan amser os nad oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer penodiad i'r swydd. Cam gweithredu: cyflwyno awgrymiadau ar gyfer swydd y Cydgysylltydd Cynllunio i YS cyn gynted ag y bo modd.</p>	PAWB
6	Unrhyw Fusnes Arall	
6.1	<p>Nododd HJ fod Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud cais i gael ail achrediad Tref Rhuban Gwyn, ac yn rhan o hyn, hoffai weld cynnydd i nifer Cenhadon gwrywaidd Rhuban Gwyn y DU.</p>	
6.2	<p>Cam gweithredu: Dosbarthu disgrifiad o'r swyddogaeth Cennad a ffurflenni cais.</p>	JJ
7	Dyddiad y cyfarfod nesaf – 25 Medi 2017	
7.1	<p>Diolchodd HJ i'r aelodau am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.</p>	